

Ymyrraeth	Cynnig Casnewydd		Gwyrdd	Cynnydd yn unol â'r targed ar hyn o bryd	
			Oren	Cynnydd heb fwrw'r targed, ond yn gyraeddadwy o hyd	
Arwain	Y Cynghorydd Jane Mudd a Steve Ward	Cyfnod Adrodd	Chwarter 4 2021-22	Coch	Cynnydd ymhell o fwrw'r targed

Prif Gyflawniadau a Llwyddiannau
Mae Cymdeithas Rheoli Trefi a Dinasoedd wedi cytuno i adnewyddu statws y Faner Borffor ar gyfer canol y ddinas.
<p>Mae'r Is-grŵp Newid yn yr Hinsawdd wedi datblygu cynllun gweithredu gyda dau faes gwaith:</p> <p><i>Gyrru gan y Gymuned:</i> Cytuno ar flaenoriaethau a champau gweithredu sy'n cael eu gyrru gan ein cymunedau i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur a rhoi'r rhain ar waith, ynghyd â grymuso cymunedau i gymryd rhan a gweithredu mewn ffyrdd sy'n gwneud gwahaniaeth.</p> <p><i>Cydweithio:</i> Annog cydweithio ar draws pob sector i rannu arfer gorau a gwybodaeth i leihau allyriadau carbon a chymryd camau i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur; a lliniaru newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo.</p> <p>Mae arolwg cyhoeddus yn fyw ar hyn o bryd i gael dealltwriaeth gychwynnol o flaenoriaethau hinsawdd ein cymunedau.</p>
<p>Digwyddiadau – A gyflwynwyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> Marathon a ras 10K ABP Casnewydd Cymru ym mis Mawrth 2022 Cynnal Pencampwriaethau Beicio Trac Cenedlaethol HSBC ym mis Mawrth 2022 Rhaglen cerddoriaeth fyw Canol y Ddinas Teithiau cerdded mewn welis (mewn parciau a manau gwyrdd) <p>Datblygu rhaglen arfaethedig o ddigwyddiadau yn y ddinas gan gynnwys:</p> <p>Marchnadoedd bwyd canol y ddinas; Digwyddiadau Jiwbilf Platinwm; Ras Gyfnewid Baton y Frenhines; Gŵyl Fwyd Casnewydd; Diwrnod Cenedlaethol Lluoedd Arfog Cymru Mehefin 2023; Penwythnos Celfyddydau a Diwylliant Sblash Mawr; Digwyddiadau Chwaraeon yn y Parc; Y Siop Siarad (gofod cyhoeddus sy'n archwilio'r cysylltiad rhwng cyfranogiad diwyllianol a democrataidd).</p>
Cynlluniau mawr sydd wedi'u cwblhau: Marchnad Casnewydd, Arcêd y Farchnad, Gwesty'r Mercure.
Cynhaliwyd astudiaeth ddichonoldeb o Seilwaith Gwyrdd (SG) Canol y Ddinas.
Cynllun rhyddhad ardrethi busnes newydd i helpu sectorau manwerthu, hamdden a lletygarwch canol y ddinas.
Datblygu gwasanaethau cymunedol yng nghanol y ddinas sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd: Caffi trwsio Re-Make a llyfrgell o bethau, hwb beicio cymunedol.

Mesuriadau Perfformiad Allweddol	Blaenorol Blwyddyn	Gwirioneddol	COG
% yn dweud bod Casnewydd yn lle da i fyw.	52.3%	59.3%	
% yn dweud bod Casnewydd yn dod yn lle gwell i fyw	50.0%	56.0%	
% sy'n falch o ddod o Gasnewydd	46.6%	53.8%	
Nifer yr ymwelwyr	> 2M		
Gwerth twristiaeth	>£149m		
% y bobl mewn gwaith	>75% (Mawrth 2021)		
Cynlluniau ar gyfer y chwarter nesaf a'r dyfodol			
Gweithio gyda'r sector lletygarwch yng nghanol y ddinas i hyrwyddo statws Baner Borffor.			
Datblygu Cynllun Creu Lleoedd yng Nghanol y Ddinas/Prif Gynllun wedi'i adnewyddu gan ddefnyddio egwyddorion Siarter Creu Lleoedd Cymru.			
Datblygu strategaeth ddiwyllianol ar gyfer y ddinas.			
Datblygu cais i Gasnewydd gynnal Porthladd Rhydd Cymru.			
Datblygu clwstwr seiber drwy bartneriaeth Porth y Gorllewin.			
Cartrefi fforddiadwy newydd ar y gweill: Cartrefi Dinas Casnewydd yn darparu uwchgynllun Ringland (160 o gartrefi ac unedau masnachol); fflatiau deiliadaeth gymysg yn Coverack Road ac Olympia House. Mae POBL a'r datblygwr tai Lovell yn gweithio mewn partneriaeth i greu 500 o gartrefi newydd yng Ngerddi Locke, Glan Llyn.			
Cyflwyno rhaglen ddigwyddiadau a cheisio cyflwyno mwy o ddigwyddiadau chwaraeon rhanbarthol a rhyngwladol.			
Cynnal arolwg o ganfyddiadau'r cyhoedd.			